# Themâu ac Amrywiadau

## Ceri Richards yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd

*27 Gorffennaf - 27 Hydref 2002*

## Pecyn Addysg

### Cynnwys


1. Ceri Richards
2. Lluniau a Lluniadau Cerfwedd 1934-39
3. Cylchred Natur 1943-1969
4. Cerddoriaeth, Golau a Lliw 1949 - 1953
5. Cerddoriaeth a Natur (La Cathédrale engloutie) 1957 - 1962
6. Encôr
7. Syniadau ar gyfer Gwaith Ymarferol
8. Geirfa Ddefnyddiol
9. Rhaglen Addysg
10. Ble Ellir Dod o Hyd i Fwy o Wybodaeth



AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU
NATIONAL MUSEUMS & GALLERIES OF WALES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Ceri Richards

Ganed Ceri Richards yn Y Dyfnant ger Abertawe ym 1903. Roedd ei dad yn weithiwr tunplat ac roedd cerddoriaeth a barddoniaeth yn rhan bwysig o fywyd pob dydd. Roedd ei dad yn arwain y côr lleol ac fe gafodd Ceri Richards ei ddysgu i chwarae'r piano.

Cafodd agweddau ar ei blentyndod yng Nghymru, ac ar gerddoriaeth, barddoniaeth a byd natur ddylanwad ar ei gelfyddyd drwy gydol ei fywyd. Daethant i'w ysgogi yn ei waith arlunio, darlunio, gwneud printiau a lluniadau.

Wedi iddo adael yr ysgol uwchradd fe gafodd ei gyflogi fel prentis peiriannydd trydanol. Roedd yn mynychu dosbarthiadau nos i astudio darlunio peirianyddol. Buan iawn y sylweddolodd mai darlunio yn hytrach na pheirianneg oedd ei brif ddiddordeb ac fe aeth i fod yn fyfyriwr llawn amser yn Ysgol Gelf Abertawe ym 1921.

Mewn Ysgol Haf ym 1923 yng Ngregynog y daeth Ceri Richards ar draws celfyddyd fodern am y tro cyntaf. Roedd Gregynog yn gartref i Gwendoline a Margaret Davies. Yno y gwelodd gelfyddydweithiau gan arlunwyr Ewropeaidd o fri am y tro cyntaf. Roedd yn arbennig o hoff o waith Claude Monet. Wedyn fe symudodd o Abertawe i'r Coleg Celf Brenhinol.

Bu'n byw yn Llundain am weddill ei fywyd heblaw am 4 blynedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan oedd yn Bennaeth Arlunio yn Ysgol Gelf Caerdydd. Erbyn y 1920au roedd yn dechrau ennill ei blwyf fel arlunydd ac fe gafodd ei arddangosfa un dyn cyntaf yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Glynn Vivian, Abertawe ym 1930. Ym 1929 fe briododd â Frances Clayton a oedd yn un o'i gyfoedion yn y Coleg Brenhinol.

Tra roedd yn y Coleg Brenhinol fe ddarllenodd waith Kandinsky ac fe ddechreuodd ymddiddori'n fawr yng ngwaith Picasso a Matisse. Erbyn y 1930au fe ddatblygodd ddiddordeb yng ngwaith y Swrrealyddion ac yn arbennig yn eu technegau awtomatig a'u defnydd o hap a siawns. Nid oedd ofn ar Ceri Richards newid ei destun ac arbrofi gyda gwahanol arddulliau a thechnegau. Roedd y 1930au'n gyfnod o arbrofi ac fe wnaeth nifer o luniau a lluniadau cerfwedd a oedd yn adlewyrchu ei ddiddordeb mewn, a'i ddealltwriaeth o giwbiaeth a haniaethu.

Ym 1943 fe ddechreuodd ar y gwaith yn gysylltiedig â thema cylchred natur. Roedd cysylltiad rhwng y thema hon a barddoniaeth Dylan Thomas, yn enwedig '*The Force that through the green fuse drives the flower.'* Erbyn diwedd y 1940au roedd yn ymchwilio i bynciau gwahanol, y tu mewn i ystafell gerdd, fel arfer gyda phiano a phianyddes. Roedd hyn yn ffordd i Richards fynegi ei gariad at gerddoriaeth. Nid naws tawel sydd i'r lluniau hyn bob amser. Roedd y lluniau o'r sabinesau ar waliau tu mewn yr ystafelloedd yn aml yn awgrymu cyfeiriad at chwedl Cipio'r Sabinesau. Erbyn y 1950au fe ymddangosodd nifer o luniau a dynnodd Ceri Richards i dalu teyrnged i'w hoff gyfansoddwr, Beethoven.

Yn ystod y 1950au a'r 60au fe greodd Ceri Richards luniau, gludweithiau a lluniadau ar thema'r gadeirlan dan y dŵr. Roedd cerddoriaeth yn dal i fod yn amlwg gan fod y testun hwn yn seiliedig ar breliwd Debussy, La Cathédrale Engloutie. Yn ystod y 1960au fe enillodd nifer o wobrau clodwiw ac fe gafodd ambell gomisiwn pwysig. Bu farw yn Llundain ar Dachwedd 9fed, 1971.

Mae'r arddangosfa wedi'i rhannu'n 5 thema.

## Lluniau a Lluniadau Cerfwedd 1934-39

Yn ystod y 1930au fe arbrofodd Ceri Richards yn aml gyda ffyrdd newydd o weithio. Yn ystod y cyfnod hwn fe wnaeth ludweithiau papur a lluniadau, rhai metel yn gyntaf, a ddinistriodd ac wedyn rhai pren. Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer y rhain o luniadau cynnar Picasso. Roedd ganddo ddiddordeb mewn rhoi bywyd newydd i ddefnyddiau crai. Mae ei luniadau cerfwedd yn bennaf yn unlliw ac maent yn adlewyrchu ei ddiddordeb mewn Ciwbiaeth a haniaethu. Byddai'n cymryd agweddau ar wrthrychau ac yn eu haildrefnu heb ystyried cyfyngiadau lliw perspectifaidd neu naturiolaidd.

## Cylchred Natur 1943-1969

Erbyn diwedd 1943 barddoniaeth Dylan Thomas oedd y brif thema yn ei waith. Fe ddaeth y gerdd a ysgrifennodd ym 1933 *'The force that through the green fuse drives the flower'* i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth y byddai Ceri Richards yn dychwelyd ati o bryd i'w gilydd am weddill ei fywyd .

Mae delweddau sy'n cyfeirio at ryw, trais naturiol, cenhedlu, twf, difodiad a marwolaeth oll yn amlwg yn ei waith. Mae cylch y tymhorau, dydd yn troi'n nos a nos yn troi'n ddydd oll yn cyfateb i gylchred bywyd dyn - o genhedlu i enedigaeth, i flodeuo yn awyr iach yr haf i farw ac yna dychwelyd i'r pridd tywyll. Gellid dweud hefyd bod y lluniau, y darluniau a'r printiau'n adlewyrchu naws y cyfnod.

Mae Ceri Richards yn gosod delweddau o fywyd / genedigaeth a marwolaeth ochr yn ochr.

**"A fyddwch yn lluniadu i'r byw?"**
*"Mae'n rhaid i mi droi at natur yn uniongyrchol i gael ysgogiad cyn y gallaf ddechrau arlunio. Unwaith y byddaf wedi trosglwyddo mynegiant o'r ysgogiad hwn i'r cynfas, mae'r llun yn tyfu fel endid ynddo'i hun."*
**"A fydd gennych syniad clir o'r llun cyn dechrau. A yw'n tyfu wrth i chi weithio?"**
*"Os ydych chi'n golygu syniad clir yn yr ystyr bod gennyf ddelwedd yn fy meddwl, yna na fydd. Ond rwy'n credu bod syniad yn y meddwl yn 'rhoi'r awydd' i rywun arlunio. Wrth arlunio mae'r cysyniad a'r darluniad yn gweithio gyda'i gilydd bron, y naill yn goleddfu ac yn aildrefnu'r llall."*
(Ceri Richards 1933)

## Cerddoriaeth, Golau a Lliw 1949 - 1953

Drwy gydol ei fywyd roedd Ceri Richards yn dychwelyd yn ysbeidiol at thema cerddoriaeth. Yn y lluniau cynnar, yr ystafell gerdd a'r piano ynddi yw canolbwynt y gweithiau. Yn ddiweddarach daw'r delweddau i fod yn llai cynrychiadol. Mae golau a lliw yn elfennau pwysig o'r gwaith ac yn aml daw disgleirdeb y golau a ddaw i mewn a goleuo ystafell i fod yn ganolbwynt y gwaith.

Mae rhai o'r darnau hyn yn dathlu llawenydd perfformio cerddoriaeth tra bod eraill yn dathlu llawenydd cyfansoddi. Mae naws mwy tawel a myfyriol i *Teyrnged i Beethoven* o'i gymharu â'r llawenydd a'r symudiad y llwyddwyd i'w gipio yn *Y Pianydd.*

Mae'r lluniau Sgwâr Traffalgar yn canlyn arni gyda thema golau a lliw ond yn yr awyr agored y tro hwn. Daw golau a chysgod i fod yn elfennau dynamig mewn ystafell wydr yn *Golau Haul mewn Ystafell (1952).*

Bu i draethawd Kandinsky "Parthed yr Ysbrydol mewn Celf", a ddarllenodd Ceri Richards ym 1912 tra roedd yn y Coleg Brenhinol, gael dylanwad mawr arno o ran y ffordd y gwelai'r berthynas rhwng cerddoriaeth a chelfyddyd.
*"Mae lliwiau'n allweddell, yr arlunydd yw'r llaw sy'n ei chwarae. Mae arlunydd nad yw'n cael ei fod-dhau gan gynrychioliadau, ond sydd am fynegi ei fywyd mewnol, ac sy'n genfigennus o'r ffordd y gellir ei wneud yn rhwydd drwy gyfrwng cerddoriaeth, yn defnyddio dulliau cerddoriaeth yn ei gelfyddyd ei hun. Ac o hyn daw'r awydd modern i ychwanegu rhythm at arlunio, at luniadu haniaethol mathemat-egol, i ailadrodd nodiadau lliw, i ysgogi lliwiau."*

## Cerddoriaeth a Natur (La Cathédrale engloutie) 1957 - 1962

Mae'r gwaith hwn yn gyfres o forluniau lled-haniaethol. Fe wnaed y gwaith fel ymateb uniongyrchol i gerddoriaeth Debussy. Fe ysbrydolwyd Debussy gan chwedl y gadeirlan dan y dwr yn Ys ar arfordir Llydaw. Ar adegau tawel dywedid fod yr eglwys yn codi o ddyfnderoedd y môr a bod y clychau i'w clywed yn canu.

Gellir gweld tameidiau o'r gadeirlan ei hun o dan y dŵr. Weithiau gellir adnabod colofnau, cromenni a ffenestri ynghanol y creigiau, y cregyn a'r cerrig. Mae'r môr yn bresennol bob amser gan adlewyrchu'r haul a'r lleuad. Mae'r gwrthgyferbyniad rhwng golau a thywyll, symudiad a llonyddwch ac arwyneb a dyfnder yn amlwg yn y gwaith.

*"Nid darlunio ydwyf ond ymateb yn fympwyol i ddarn hollbwysig o gerddoriaeth yr wyf yn ei edmygu'n fawr ".*


### Encôr

Yn dilyn *La Cathédrale engloutie* fe weithiodd Ceri Richards ar gyfresi eraill o luniau y daeth yr ysgogiad ar eu cyfer o gerddoriaeth Debussy i'r piano: *Clair de Lune, Jardins sous la pluie and Poissons d'or.* Yn y gweithiau hyn fe gyfeirir at olau'r lleuad ar y môr ac ar y gamlas, pysgod aur yn y pwll a chawodydd sydyn ar ardd ym Mhenrhyn Gŵyr. Mae digwyddiadau mewn natur yn cyfrannu at greu gweithiau gwirioneddol atgofus.


## Syniadau ar gyfer Gwaith Ymarferol yn ôl yn yr ysgol

THEMÂU - Natur, Cerddoriaeth, Barddoniaeth
TECHNEGAU - Arlunio, Gwneud Printiau, Gludweithiau

**Gwnewch waith wedi ei ysbrydoli gan luniadau Ceri Richards e.e. *Dyn gyda Phibell 1934* a *Gwyn a Thywyll 1936***




Gan ddefnyddio casgliad o offerynnau cerdd gwnewch ddarluniau syml yn canolbwyntio ar siâp.
Torrwch y siapiau o amrediad o bapurau. Gweithiwch gydag un lliw gan arbrofi gyda naws ac ansawdd.
Defnyddiwch amrediad o bapurau o wahanol ansoddau a nawsau ond o'r un lliw. Efallai y byddwch yn dymuno edrych ar amrediad o bapurau gwyn megis papur cryf, papur newydd, papur wal naddion pren, papur wal boglynnog, papur wedi'i wneud â llaw ...
Chwaraewch gyda'r siapau gan eu trefnu ar gefndir tra'n siarad am gyfansoddiadau. Anogwch y disgyblion i arbrofi gyda gwahanol drefnau cyn eu gludo'n sownd.



**Gwnewch waith wedi ei ysbrydoli gan y gyfres La Cathédrale engloutie**

Iaith fel ysgogiad i greu delweddau gweledol.
e.e. Oer, Gwlyb, Blinedig, Hwyl, Uchel, Trist, Gwallgof, Tawel...
Rhowch eiriau unigol neu frawddegau i'r disgyblion. Gallent fod yn ddisgrifiadol neu gallant fod yn rhai sy'n achosi naws. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am, a thynnu llun siapiau, a awgrymir gan y geiriau. Edrychwch ar amrediad o ddeunyddiau tryloyw e.e. papur sidan, defnydd rhwyd, papur cwdyn te, papur trasio... Torrwch rai o'r siapiau a bachwch nhw y tu ôl i'r deunyddiau tryloyw. Efallai y byddwch hyd yn oed am gynnwys ambell air gyda'r siapiau.

**Gwnewch waith gan gymryd arnoch i chi gael eich ysbrydoli gan y gyfres Cylchred Natur**



Gwrthrychau naturiol fel ysbrydoliaeth ar gyfer gwneud printiau. Casglwch amrediad o ffurfiau naturiol i'r disgyblion eu defnyddio fel ysgogiad. Cofiwch eiriau Ceri Richards *"Mae'n rhaid i mi droi at natur yn uniongyrchol i gael ysgogiad cyn y gallaf ddechrau arlunio."* Gofynnwch i'r disgyblion gymryd rhwbiadau a thynnu llun rhai o'r gwrthrychau.

ι Gellid defnyddio'r gwrthrychau eu hunain i wneud printiau.


ι Gwnewch y dyluniad ar ddarn o gerdyn. Gludwch y siapiau cardiau ar ddarn o gerdyn (gyda PVA). Mae hen bacedi grawnfwyd yn gweithio'n dda iawn. Cymerwch rwbiad o'r blocyn cyn ei ddefnyddio ar gyfer gwneud printiau.

ι Gwneud printiau colograff. Gyda'r dechneg hon caiff y blocyn ei adeiladu o amrediad o arwynebau o wahanol ansawdd. Caiff pob siâp ei ludo (gyda PVA) ar y blocyn. Unwaith y mae'r blocyn wedi'i orffen fe ddylid selio'r arwyneb gyda chymysgedd o PVA a dŵr. Unwaith y bydd yn sych gellir defnyddio'r blocyn i wneud printiau. Fe ddylid cymryd rhwbiad hefyd.

**Gwnewch waith wedi ei ysbrydoli gan y gyfres La Cathédrale engloutie**
Cerddoriaeth fel ysgogiad ar gyfer arlunio.



Gwrandewch ar ddarn o gerddoriaeth ac anogwch y disgyblion i arbrofi gyda gwneud nodau, siapiau, llinellau a lliwiau. Gellir gofyn cwestiynau i'w cymell i ddefnyddio eu dychymyg.
Pe bai'r darn hwn o gerddoriaeth yn siâp, pa siâp fyddai? Pe bai'r darn hwn o gerddoriaeth yn lliw, pa liw fyddai? Gellid cynhyrchu darn o waith arlunio hir a chul iawn, gyda phob adran yn cynrychioli adran wahanol o'r cyfansoddiad cerddorol.



**Gwnewch ddarn o waith wedi ei ysbrydoli gan *Y Pianydd***

Cerddoriaeth a symudiad fel ysgogiad ar gyfer gwaith 3 dimensiwn ffigurol.
Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn deuoedd a chymryd tro i dynnu braslun o'i gilydd tra bod un yn cyflawni rhyw fath o symudiad. Pwysleisiwch mor bwysig yw peidio â phoeni am wneud i'r ffigurau edrych yn realistig ond yn hytrach cyfleu ymdeimlad o symudiad. Gellid tynnu llun yr ystum hefyd.
Wedyn gellir adeiladu siâp y ffigur symudol o weiren a'i orchuddio gyda darnau bychain o *Mod-Roc.*

## Geirfa Ddefnyddiol

**Celf Gynrychiadol**
Gwrthrychau'n cael eu portreadu fel y maent yn ymddangos yn y byd go iawn.

**Celf Haniaethol**
Celf nad yw'n ymgais i bortreadu pobl, anifeiliaid na gwrthrychau yn y byd go iawn. Caiff lliwiau, llinellau ac ansawdd eu trefnu o fewn y gwaith er budd estheteg.

**Celf Swrealaidd**
Mynd y tu hwnt i, neu uwchlaw realiti. Cysylltu byd breuddwydion a bywyd go iawn. Gwaith sy'n cyfuno gwrthrychau annhebyg.

**Ciwbiaeth**
Gwaith a wnaed i arbrofi gyda'r syniad o ddarlunio'r byd 3 dimensiwn ar arwyneb ac iddo 2 ddimensiwn. Byddai safbwynt sengl yn cael ei wrthod ac weithiau byddai gwrthrychau eu hunain a deunyddiau'n cael eu gosod yn y gwaith.

**Cyfansoddiad**
Y ffordd y caiff elfennau mewn celfyddydwaith eu trefnu i greu delwedd sydd wrth fodd y llygaid.

**Ffrotais**
Rhwbiadau o wahanol ansoddau, y gellir eu defnyddio mewn gludwaith.

**Gludwaith**
Llun a wneir yn llwyr neu'n rhannol o bapur, clwtyn neu ddeunydd arall yn sownd ar arwyneb.

ceri richards

## Rhaglen Addysg / Digwyddiadau Cyhoeddus

**Yr Olwg Gynt**
Dydd Mercher, Medi 4ydd - 4.30 - 5.30yp
Rhagflas arbennig o'r arddangosfa ar gyfer athrawon ysgolion cynradd, uwchradd a cholegau. Mae'r arddangosfa hon yn gyfle unigryw i astudio gwaith Ceri Richards a thrwy hynny gwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cymreig. Ffoniwch 029 20573240 i gadw lle.

**Sesiynau mewn Oriel gydag Arlunydd**
Mae sesiynau mewn oriel ar gyfer grwpiau addysgol ar gael yn yr arddangosfa bob bore. Fe edrychir yn fanwl ar ddarnau unigol o waith a gellir addasu sesiynau'n benodol at oed y myfyrwyr. Mae'n rhaid archebu lle ymlaen llaw ar gyfer y sesiynau hyn sy'n para 45 munud a gellir gwneud hynny drwy law'r swyddfa addysg, 029 20573240. Y grŵp mwyaf posib:30

**Wythnos Gelf Arbennig**
Gwirioni ar Gerddoriaeth
Medi 24ain - 27ain 2002
10.15yb - 12.15yp a 12.45yp - 2.45yp
Mae lle ar gael i 30 o ddisgyblion ym mhob gweithdy.
Gwnewch eich gwaith eich hun gan gael eich ysbrydoli gan gerddoriaeth.
Bydd y gweithdy'n dechrau yn yr arddangosfa, lle bydd disgyblion yn edrych ar waith Ceri Richards, a ysgogwyd gan gerddoriaeth. Wedyn bydd disgyblion yn gweithio gydag arlunydd i greu eu gwaith eu hunain mewn ymateb i gerddoriaeth.
Addas at ddisgyblion CA2 a CA3.

**Cert Celf**
Gall teuluoedd sy'n ymweld â'r arddangosfa wneud eu celfyddydweithiau eu hunain gan gael eu hysbrydoli gan waith Ceri Richards.
Bydd gan y cart amrediad o weithgareddau 'gwneud' ar gyfer rhieni a phlant o bob oed. Bydd pob gweithgaredd yn ymwneud â gweithiau unigol yn yr arddangosfa a bydd yn cynorthwyo teuluoedd i edrych ar ddarnau o waith gilydd.
Bydd gweithgareddau ar gael o 12.30yp - 4.30yp, bob penwythnos ac yn ystod gwyliau ysgol drwy gydol yr arddangosfa.

**Crwydro a Sgwrsio**
Ewch am dro o amgylch yr arddangosfa gydag un o'n tywyswyr. Bydd y sesiynau anffurfiol hyn ar gael bob prynhawn yn ystod yr arddangosfa.

ceri richards

## Ble ellir dod o hyd i fwy o wybodaeth

www.atticgallery.co.uk
www.welshartsarchive.org.uk
www.artwales.com/artistcri
www.keithchapman.homestead.com
www.gallery4wales.com/CeriRichards

**Llyfrau a Chatalogau Arddangosfeydd**


*Ceri Richards*, cat. ardd. Eisteddfod Genedlaethol 1961
*Ceri Richards*, cat. ardd. Coleg Prifysgol Abertawe, 1984
*Arddangosfa Goffa Ceri Richards*, cat. ardd. Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 1973
*Ceri Richards,* cat. ardd. Academi Frenhinol yr Alban, 1975
*Ceri Richards*, cat. ardd. Oriel Tate, 1981
*Ceri Richards*, cat. ardd. Oriel Martin Tinney, 1999
*Ceri Richards*, cat. ardd. Marlborough Fine Art, 1970
Roberto Sanesi, *The Graphic Works of Ceri Richards*, Milan, 1973
*Ceri Richards*, cat. ardd. Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru, 2002
Mel Gooding, *Ceri Richards*, Cameron and Hollis, 2002